YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Polisi Cydraddoldeb

# 2022

| Mabwysiadu'r Polisi / Adopted Policy |
|---|
| Dyddiad Adolygu gan y Corff Llywodraethu: **2/12/22**<br><br>Reviwed by Governing body: |
| Dyddiad cadarnhau a chymeradwyo gan y Corff Llywodraethu Llawn: **31/1/23**<br><br>Date of confirmation and approval by the Full Governing Body: |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:<br><br>Signature of the Chair of Governors: |

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ganolog i gynllunio, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, yn ogystal ag addysgu am hawliau plant, rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas - yn gysylltiedig ag Erthygl 3 (y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn)

# Cynnwys


**1. Ein hysgol**
- 1.1 Gwerthoedd
- 1.2 Nodweddion
- 1.3 Prif-ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac arfer
- 1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

**2. Cyfrifoldebau**
- 2.1 Corff Llywodraethu
- 2.2 Uwch Dîm Arweinyddiaeth
- 2.3 Staff – addysgu a rhai nad ydynt yn addysgu

**3. Casglu gwybodaeth a chynnwys**
- 3.1 Diben a phroses
- 3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir
- 3.3 Cynnwys

**4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

**5. Amcanion a chynlluniau gweithredu**

**6. Cyhoeddi ac adrodd**

**7. Monitro ac adolygu**


## Atodiadau


**Atodiad 1 Amcanion Llywodraeth a’r Sir**

**Atodiad 2 Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu'r Ysgol**

**Atodiad 3 Cynllun Hygyrchedd yr Ysgol**

# 1. Ein Nodweddion Unigryw, ein Blaenoriaethau a'n Nodau

## 1.1 Gwerthoedd yr ysgol




Yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-môr, rydym yn ymroddedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfleoedd i bob disgybl, staff, rhiant a gofalwr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, heb ystyried anabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Ein nod yw datblygu diwylliant o gynnwys ac amrywiaeth lle bo pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn ymfalchïo yn eu hunaniaeth ac yn gallu cymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol.

Caiff cyflawniad disgyblion ei fonitro a byddwn yn defnyddio'r data hwn er mwyn cefnogi disgyblion, gwella safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb mewn modd cadarnhaol, gan herio bwlio ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-môr, rydym yn credu mai cryfder yw amrywiaeth, y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n dysgu, yn addysgu ac yn ymweld yma.

## 1.2 Nodweddion ein hysgol

Mae Ysgol Gymraeg Bryn-y-môr yn ysgol gynradd Gymraeg sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o ddalgylch mawr sy'n cynnwys Brynhyfryd, Brynmill, Cwmbwrla, yr Hafod, Parklands, San Helen, Sgeti, Heol Teras, Trefansel a Waun Wen, Marina a Townhill a Mayhill.
Mae 260 o ddisgyblion ar y gofrestr sy'n cynnwys 36 o ddisgyblion rhan-amser.
Daw plant i'r dosbarth meithrin yn rhan-amser ar eu pen-blwydd yn dair oed.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu sy’n cymued gymysg o deuloedd sy’n dod o gefndiroedd acamediadd economaidd amrywiol. Mae amrywieth o fewn fewn cohorts ar gyfer yr y galw am brydiau bwyd am ddim.

Ar hyn o bryd mae 12 athro amser llawn, gan gynnwys y pennaeth ac un athro rhan-amser. Mae 10 dosbarth, gan gynnwys y dosbarth Meithrin rhan-amser. Caiff y rhan fwyaf o'r dysgwyr eu haddysgu mewn grwpiau blwyddyn, gyda dau ddosbarth oedran cymysg. Mae chwech cynorthwy-ydd cefnogi dysgu amser llawn, ac un sy'n rhan-amser, ynghyd ag un swyddog gweinyddol ysgol amser llawn ac un cynorthwy-ydd gweinyddol rhan-amser.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion (92.1%) yn ystyried eu hunain i fod yn Wyn Prydeinig; Cymraeg neu Saesneg yw iaith gyntaf 98.2% o'r disgyblion. Daw oddeutu 37% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r un neu ddau riant yn siarad Cymraeg. Mae 7.9% o ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a 4.1% yn siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar hyn o bryd.

Penodwyd pennaeth presennol yr ysgol ym mis Ionawr 2020 a'r dirprwy bennaeth presennol ym mis Medi 2006. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2016. Ers penodiad y Pennaeth yn 2020 bu pandemig fyd eang - Covid 19.  Mi gafodd y pandemig effaith sylweddol ar staff a disgyblion yr ysgol.

£3542 oedd cyllideb Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-môr fesul disgybl yn 2021/22. Y cyfartaledd fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ninas Abertawe oedd £4,058.

## 1.3 Prif-ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac arfer

Ein nod yw darparu cyfleoedd i bob disgybl lwyddo a chyrraedd y lefel uchaf o gyflawniad personol. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn:

- Defnyddio data cyd-destunol er mwyn gwella ein ffyrdd o gefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion;
- Monitro data cyflawniad yn ôl y nodweddion gwarchodedig amrywiol a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau;
- Ystyried cyflawniad pob disgybl wrth gynllunio dysgu yn y dyfodol a gosod targedau heriol;
- Sicrhau mynediad cyfartal i bob disgybl a'i baratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amrywiol;
- Defnyddio deunyddiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth yr ysgol, y boblogaeth a'r gymuned leol o ran y nodweddion gwarchodedig amrywiol, heb ddefnyddio ystrydebau;
- Hyrwyddo agweddau a gwerthoedd a fydd yn herio ymddygiad gwahaniaethol neu ragfarnau;
- Darparu cyfleoedd i ddisgyblion werthfawrogi eu diwylliant eu hunain ac yn dathlu amrywiaeth diwylliannau eraill;
- Ceisio cynnwys pob rhiant wrth gefnogi addysg ei blentyn;
- Annog trafod cydraddoldeb mewn ystafelloedd dosbarth ac ystafell y staff, gan adlewyrchu ystrydebau, esboniadau a'r effaith ar ddysgu;
- Cynnwys ymagweddau addysgu yn yr ystafell ddosbarth sy'n briodol i holl boblogaeth yr ysgol, sy'n gynhwysol ac sy'n ystyried ein disgyblion.

## 1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb i sefydlu cydraddoldeb i bob dysgwr, staff, aelodau eraill o gymuned yr ysgol, a defnyddwyr gwasanaeth, heb ystyried unrhyw nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd/Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Tueddfryd rhywiol

Gweler hefyd ganllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Crefydd ACRH a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg CGM a'r hyn ag amlinellir yn y ddogfen CiG.

Diben ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)** yw cyflawni'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb a sicrhau bod tegwch a chydraddoldeb wrth wraidd cymuned ein hysgol a phob agwedd ar gynlluniau a pholisïau ein hysgol.

Wrth bennu amcanion cydraddoldeb yr ysgol hon, rydym yn rhoi ystyriaeth briodol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i:

1. Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt yn ei rhannu
3. Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
4. Lleihau effaith tlodi ar ddisgyblion yr ysgol.

**Pennir ein CCS a'n hamcanion cydraddoldeb yn sgil y canlynol:**

- Barn ein cyngor ysgol a'r corff llywodraethu sydd wedi cymryd rhan wrth ddatblygu'r cynllun;
- Materion a gododd o ganlyniad i'n dadansoddiad o ddata ein disgyblion, e.e. data cyrhaeddiad plant bregus, data lles a phrofion cendlaethol;
- Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru a Sir Abertawe

Gweler ein Cynllun gwariant ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion

Nodir amcanion cydraddoldeb ein hysgol yn **Atodiad 2**.

# 2. Cyfrifoldebau

## 2.1 Corff Llywodraethu

Mae'r corff llywodraethu wedi nodi ei ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cynllun hwn a bydd yn parhau i wneud popeth posib i sicrhau bod yr ysgol yn hollol gynhwysol i ddisgyblion, ac yn ymatebol i'w hanghenion yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig. Mae'r corff llywodraethu'n:

- Ceisio sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl pan fyddant yn gwneud cais am swyddi yn ein hysgol;
- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi mynediad i bobl anabl, ac yn ymdrechu i gyfathrebu â rhieni, gofalwyr a disgyblion mewn modd cynhwysol;
- Sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw ddisgybl yn ein hysgol.

Er mwyn bodloni ei gyfrifoldeb o ran adrodd, bydd y corff llywodraethu'n adrodd ar gynnydd y CCS yn flynyddol, fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol i rieni.

### 2.2 Pennaeth/Uwch-dîm Arwain (UDA)

Mae'r Uwch-dîm Arwain yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn dileu gwahaniaethu drwy'r canlynol:

- Rhoi CCS yr ysgol ar waith, wedi'i gefnogi gan y corff llywodraethu;
- Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf ac yn hollol ymwybodol o'r CCS ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol;
- Sicrhau bod pob panel penodi'n rhoi ystyriaeth briodol i'r cynllun hwn, er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn neb o ran cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant;
- Hyrwyddo egwyddor cyfle cyfartal wrth ddatblygu'r cwricwlwm, a hyrwyddo parch at bobl eraill a chyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol;
- Ymdrin ag unrhyw achosion o fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu yn unol â pholisïau'r awdurdod a'r ysgol.

### 2.3 Staff – addysgu a rhai nad ydynt yn addysgu

Mae'r ysgol yn ystyried bod cydraddoldeb yn gyfrifoldeb i bawb. Mae pob aelod o staff yn cyfrannu at sicrhau bod ein hysgol yn gymuned deg, gyfiawn a chydlynol drwy:

- Sicrhau y caiff pob disgybl ei drin yn deg, yn gyfartal ac â pharch, gan gynnal ymwybyddiaeth o CCS yr ysgol;
- Ymdrechu i ddarparu deunydd sy'n rhoi delweddau cadarnhaol yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig ac sy'n herio delweddau ystrydebol;
- Herio unrhyw achosion o ragfarn, a chofnodi unrhyw achosion difrifol fel y'u pennir ym mholisïau'r awdurdod lleol a'r ysgol, e.e. adrodd am achosion o hiliaeth;
- Cefnogi gwaith staff ategol neu gynorthwyol a'u hannog i ymyrryd mewn modd cadarnhaol yn erbyn unrhyw achosion o wahaniaethu.

## 3. Casglu gwybodaeth a chynnwys

### 3.1 Diben a phroses

Mae casglu gwybodaeth yn allweddol i'n cefnogi i wneud y canlynol:

- Penderfynu ar gamau gweithredu i'w cymryd er mwyn gwella cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yng nghymuned yr ysgol
- Adolygu ein perfformiad
- Ymgymryd â'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.

Mae cynnwys yn seiliedig ar yr wybodaeth a geir am y grwpiau gwahanol a gynrychiolir. Ein nod yw gwneud hyn mewn modd mor gyflawn â phosib, gan gydnabod sensitifrwydd materion sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig gwahanol. Mae'r cynnydd hwn yn bwysig er mwyn deall holl anghenion amrywiol cymuned yr ysgol.

### 3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir

Mae'r amrywiaeth eang o wybodaeth a gesglir er mwyn cefnogi ein cynllunio a'n camau gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu'n cynnwys y canlynol:

- Data cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion sy'n gysylltiedig â grwpiau gwahanol;
- Mynd ati i geisio barn Cyngor yr Ysgol a'r Pwyllgor Lles, a chynnwys eu barn mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi eu cyfraniad;
- Cofnodion o fwlio ac aflonyddu ar sail unrhyw nodwedd warchodedig.

### 3.3 Cynnwys

Mae'r ysgol yn cynnwys **rhanddeiliaid**, gan gynnwys disgyblion, staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a defnyddwyr eraill yr ysgol, mewn cysylltiad â phob dyletswydd cydraddoldeb. Rydym yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â phawb mewn modd hygyrch, gan ddefnyddio dehonglwyr a fformatau gwybodaeth gwahanol pan fo'n briodol.

Ystyrir barn rhanddeiliaid a grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb o ddifrif wrth i ni bennu ein blaenoriaethau.

## 4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Yn y bôn, mae AEC yn fodd o edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud fel ysgol i sicrhau nad yw ein polisïau'n a'n cynigion yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail y canlynol:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred/diffyg cred
- Rhyw
- Tueddfryd rhywiol
- Cymraeg

Diben AEC yw nodi unrhyw risgiau posib o ran gwahaniaethu anghyfreithlon a chyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb. Maent hefyd yn cefnogi cyflwyno rhagoriaeth o ran diwallu anghenion pawb.

Byddwn yn cynnal AEC ar ein holl bolisïau a'n cynigion y gellir, yn ein barn ni, effeithio arnynt gan broblemau cydraddoldeb.

## 5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu

**Y canlynol yw ein hamcanion cydraddoldeb:**

***1.*** Lleihau'r bwlch rhyw ac i'r plant bregus yn y pynciau craidd drwy gynnal rhaglenni dal i fyny/ymyrryd ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn dilyn cyfnodau clo ac mewn ymateb i bandemig Covid 19.

***2.*** Monitro a dadansoddi cyflawniad disgyblion yn ôl nodweddion gwarchodedig, gweithredu ar dueddiadau/batrymau yn y data sy'n gofyn am gefnogaeth ychwanegol er mwyn lleihau'r gwahaniaeth.

***3.*** Dathlu digwyddiadau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o grwpiau ethnig gwahanol. Ymgysylltu yn fwy â'r gymuned a'i gwahodd i ddod i siarad am a dathlu eu traddodiadau megis y ganolfan Affrica/Tseiniaidd.

***4.*** Dylunio y cwricwlwm mewn modd sy'n cynnwys amcanion Gofynion Ehangach y Cwricwlwm (GE) a sy'n gyrru disgyblion ar pedwar diben Cwriclwwm i Gymru 2022. Y 4 diben

***5.*** Cyhoeddi a hyrwyddo'r Polisi Cydraddoldeb ar wefan yr ysgol a chyfarfodydd staff/llywodraethwyr.

Ceir mwy o wybodaeth am sut mae'n amcanionyn cysylltu gyda rhai y Sir yn **Atodiad 1**. Ceir hyd i'r camau gweithredu yn **Atodiad 2**. Ceir hyd i'r camau hygyrchedd ADY yn **Atodiad 3**.

Mae'r ysgol yn gwerthuso effeithiolrwydd y CCS yn rheolaidd, drwy'r corff llywodraethu ac Estyn, pan arolygir yr ysgol.

## 6. Cyhoeddi ac adrodd

Byddwn yn cyhoeddi ein CCS ar wefan ein hysgol a sicrhau ei fod ar gael o swyddfa'r ysgol. Bydd y cynllun ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ar gais.

Defnyddir yr holl ddata a gesglir at y diben hwn yn unig: dadansoddi tueddiadau yn ôl nodweddion gwarchodedig o ran perfformiad, y nifer sy'n derbyn gwasanaethau'r ysgol neu'r awdurdod lleol, a boddhad â'r gwasanaethau hynny. Caiff gwybodaeth o'r fath ei storio ar wahân i wybodaeth bersonol sy'n adnabod yr unigolyn. Er mwyn diogelu cyfrinachedd unigolion pan gyhoeddir gwybodaeth am dueddiadau, ni chyhoeddir deunydd am lai na 5 unigolyn.

## 7. Monitro ac adolygu

Fel rhan o'n cyfrifoldeb i fonitro'r CCS, rydym yn ymrwymo i wneud y canlynol:

- Ailystyried a dadansoddi'r wybodaeth a'r data a ddefnyddiwyd i nodi blaenoriaethau ein hamcanion cydraddoldeb;

- Adolygu cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb yn flynyddol.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-môr

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022 – 2026

# Atodiadau

**Atodiad 1** **Amcanion Llywodraeth a Sir**
**Atodiad 2** **Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun - Gweithredu'r Ysgol**
**Atodiad 3** **Cynllun Mynediad Presennol yr Ysgol**

## Atodiad 1

<u>Cynllun Cydraddoldeb Strategol Abertawe</u>

Dyma’n trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2020-24 a ddatblygwyd i ddisgrifio sut byddwn yn parhau i geisio bodloni'n hymrwymiad i gydraddoldeb a sut byddwn yn cyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol a gynhwysir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'n adeiladu ar y cyflawniadau a wnaed yn ein hail CCS, sef Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ond mae hefyd wedi’i adolygu er mwyn gwreiddio’n hymrwymiad i gydraddoldeb ym musnes craidd y cyngor. Mae cydberthynas agos rhwng Cynllun Corfforaethol ac Amcanion Lles y cyngor a Chynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb y cyngor. Cyhoeddir Cynllun Corfforaethol diwygiedig yn ystod 2020/21. Bydd llawer o'r camau i gyflwyno amcanion lles a chydraddoldeb y cyngor  yn cyfateb yn well wrth i ni fynd ar drywydd integreiddio a cheisio gwella lles ac anelu at Abertawe a Chymru fwy cyfartal.

Mae ein cynllun presennol, Cynllun Corfforaethol 2018-22, yn blaenoriaethu chwe amcan lles;

- Diogelu pobl rhag niwed – er mwyn sicrhau bod ein dinasyddion yn ddiogel rhag niwed a chamfanteisio.
- Gwella Addysg a Sgiliau - fel bod pawb yn Abertawe yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arno i  lwyddo mewn bywyd.
- Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd – fel bod gan Abertawe ganol dinas defnydd cymysg, ffyniannus ac economi leol a fydd yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion.
- Trechu Tlodi - fel bod pob person yn Abertawe'n gallu cyflawni ei botensial.
- Cynnal a gwella Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth Abertawe - fel ein bod yn cynnal ac yn cyfoethogi bioamrywiaeth, yn lleihau ein hôl-troed carbon, yn gwella'n gwybodaeth am yr amgylchedd naturiol a'n dealltwriaeth ohono ac yn gwella'n hiechyd a'n lles yn sgîl hyn.
- Trawsnewid a datblygu'r cyngor yn y dyfodol – fel ein bod ni a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu'n gynaliadwy ac yn addas i'r dyfodol.

**Atodiad 2**

# Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-môr

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022 – 2026
# Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu

| Llinyn Cydraddoldeb | Amcanion/Cam Gweithredu | Sut caiff effaith y cam gweithredu ei fonitro? | Cyfrifoldeb dros fonitro | Amserlenni | Dangosyddion llwyddiant |
|---|---|---|---|---|---|
| Cydraddoldeb rhyw | Lleihau'r bwlch rhyw yn y pynciau craidd drwy gynnal rhaglenni dal i fyny/ymyrryd ar gyfer llythrennedd a rhifedd. | Data<br>asesiadau athrawon<br>Cyfarfodydd Cynnydd Disgyblion | Pennaeth, Dirprwy, CLl | Gweler y Cynllun 6 tymor | Lleihau'r bwlch rhyw yn asesiadau athrawon yn y Cyfarfodydd Cynnydd Disgyblion |
| Cydraddoldeb rhyw | • Herio stereoteip gyrfaoedd i fechgyn a merched trwy ddefnydd o wefannau Gyrfa Cymru a gwahodd aelodau o’r gymuned gwaith i ddod i siarad â disgyblion e.e peirianwraig, dyn sy’n gweithio fel gofalwr a.y.y.b | Cynlluniau’r ysgol<br>Gwaith disgyblion<br>Siarad gyda disgyblion | UDA | Yn dymhorol | Plant yn trafod gyrfaoedd ac yn deall pa sgiliau a gwybodaeth a fydd angen ar y gyrfaoedd hyn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Sicrhau bod addysgeg yn agor y drws i gefnogi gwahanol fathau o ddysgu. | | | | |
| Nodweddion gwarchodedig | Monitro a dadansoddi cyflawniad disgyblion yn ôl nodweddion gwarchodedig, gweithredu ar dueddiadau/batrymau yn y data sy'n gofyn am gefnogaeth ychwanegol er mwyn lleihau'r gwahaniaeth. | Cyfarfoodydd Cynnydd disgyblion yn edrych yn benodol am batrymau yng nghyrraeddiad a chynnydd disgyblion<br>Profion mewnol yr ysgol<br>Profion Cenedlaethol | Pennaeth, UDRh | Bob blwyddyn - Data Craidd | Mae dadansoddi asesiadau athrawon yn awgrymu bod y bwlch yn lleihau ar gyfer grwpiau cydraddoldeb. |
| Cydraddoldeb hiliol | • Dathlu digwyddiadau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o grwpiau ethnig gwahanol.<br>• Gwahodd aelodau o’r gymuned yn Abertawe e.e yr Affrica Centre, Canolfan Tsienaidd i wasanaethau yr ysgol i siarad am eu gwaith yn y gymuned.<br>• Hyfforddiant staff ysgol gan [https://darpl.org/](https://darpl.org/) neu drwy’r bartneriaeth.<br>• Parhau gyda’r gwaith gyda’r Empathy Lab | Gofnodion Gwasanaethau<br>Siarad gyda Disgyblion<br>Arolwg i'w gynnal gan Gyngor yr Ysgol | Arweinydd CGM ac arweinydd Cynhwysiant<br><br>Yr holl staff | Medi 2022-Gorffennaf 2026 | Ymwybyddiaeth gynyddol o gymunedau, credoau ac ethnigrwydd gwahanol, wedi'i phrofi drwy ddadansoddi arolygon. |
| | | | Pennaeth | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nodweddion gwarchodedig | • Cyhoeddi a hyrwyddo'r Polisi Cydraddoldeb ar wefan yr ysgol a chyfarfodydd staff/llywodraethwyr. | Cwestiwn penodol i'w ychwanegu at yr holiadur rhieni diwedd blwyddyn o ran cydraddoldeb. | | Hydref 2022 | Rhieni'n ymwybodol o'r polisi |
| Effaith Tlodi | • Defnydd o grantiau megis GDD yn cael ei ddefnndnyddio i leihau y rhwystrau i ddysgu | Cyllideb yr ysgol<br>Safonau dysgu disgyblion | EW | Blynyddol | |
| Think Equal (Meddwl Cydraddol) | Cyflwyno y rhaglen Think Equal – pecyn o weithgareddau a llyfrau sy’n hyrwyddo cydraddoldeb – yn y meithrin, derbyn a blwyddyn 1 | Cynlluniau tymor byr Sgwrsio gyda dysgwyr<br>Dyddiaduron Dysgu a gwaith ar See Saw | RHJ<br>UDA | Haf 2023 (Derbyn)<br>Haf 2024 (Meithrin Blwyddyn 1) | Bydd gwybodaeth a sgiliau cymdeithasol, emosiynol a moesegol y dysgwyr yn datblygu. |

# Atodiad 3

**Cynllun Hygyrchedd**

## Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn wedi'i lunio yn unol â'r ddyletswydd gynllunio yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf AAA ac Anabledd 2001 (SENDA).
Mae'n defnyddio'r arweiniad a nodir yn ''Ysgolion Hygyrch: Cynllunio i wella mynediad i ysgolion ar gyfer disgyblion anabl' a gyhoeddwyd gan y DfES ym mis Gorffennaf 2002.

## Diffiniad o Anabledd

Diffinnir anabledd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (DGSA) fel hyn:
"Mae person yn anabl os oes ganddo ef/ganddi hi nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith sylweddol a thymor hir ar ei allu i wneud gweithgareddau pob dydd arferol."

## Amcan Allweddol

Lleihau a dileu rhwystrau i fynediad i'r cwricwlwm a sicrhau cyfranogiad disgyblion, a darpar ddisgyblion, a chanddynt anabledd yng nghymuned yr ysgol.

## Egwyddorion

- Mae cydymffurfio â'r DGSA yn gyson â nodau a pholisi cyfle cyfartal yr ysgol, a gweithrediad polisi AAA yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn cydnabod ei dyletswydd o dan y DGSA (fel y'i diwygiwyd gan SENDA) i wneud y canlynol:
    - Peidio â gwahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl yn ei derbyniadau a'i gwaharddiadau, ac wrth ddarparu addysg a gwasanaethau cysylltiedig
    - Peidio â thrin disgyblion anabl yn llai ffafriol
    - Cymryd camau rhesymol er mwyn peidio â rhoi disgyblion anabl dan anfantais sylweddol
    - Cyhoeddi Cynllun Hygyrchedd.
- Wrth gyflawni eu dyletswyddau, bydd llywodraethwyr a staff yn ystyried Côd Ymarfer y CHA (2002).
- Mae'r ysgol yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwybodaeth rhieni am anabledd eu plentyn a'i effaith ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol, ac yn parchu hawl y rhieni a'r plentyn i gyfrinachedd.

- Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys i bob disgybl; caiff ei ddiwygio a'i addasu er mwyn diwallu anghenion disgyblion unigol a'r dulliau dysgu y maent yn eu ffafrio. Mae hefyd yn cefnogi'r egwyddorion allweddol yn fframwaith Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, sy'n sail i ddatblygu cwricwlwm mwy cynhwysol, sef:
    - Gosod heriau dysgu addas
    - Ymateb i anghenion dysgu amrywiol disgyblion
    - Goresgyn rhwystrau posib i ddysgu ac asesu ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

## Gweithgaredd

### *a) Addysg a gweithgareddau cysylltiedig*
Bydd yr ysgol yn parhau i geisio, a dilyn, gyngor gwasanaethau'r AALl, fel athrawon ymgynghorol arbenigol ac arolygwyr/ymgynghorwyr AAA, a gweithwyr iechyd proffesiynol priodol o Ymddiriedolaethau lleol y GIG.

### *b) Amgylchedd ffisegol*
Bydd yr ysgol yn ystyried anghenion disgyblion ac ymwelwyr a chanddynt anawsterau corfforol a nam synhwyraidd pan fyddant yn cynllunio ac yn gwneud gwelliannau a gwaith adnewyddu ar y safle a'r eiddo yn y dyfodol, fel mynediad gwell, goleuadau, acwsteg a chynlluniau lliw, a chyfleusterau a gosodiadau mwy hygyrch.

### *c) Darparu gwybodaeth*
Bydd yr ysgol yn ymwybodol o wasanaethau lleol, gan gynnwys y rhai gan yr AALl, wrth ddarparu gwybodaeth mewn fformatau gwahanol pan fydd eu hangen neu ar gais.

## Cynllun Gweithredu
(gweler isod)

## Polisïau Cysylltiedig
Bydd y cynllun hwn yn cyfrannu at adolygu a diwygio polisïau cysylltiedig yr ysgol, e.e.
- Cynllun Datblygu Ysgol
- Y Cod ADY a'r Llawlyfr Sir Abertawe
- Polisi Cyfleoedd Cyfartal
- Polisïau'r Cwricwlwm

| Cynllun Hygyrchedd – Tymor Byr – Dyluniad yr Ysgol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Targed** | **Strategaethau** | **Deilliant** | **Amserlen** | **Nodau a gyflawnwyd** |
| Gwella gweledēdd y grisiau mewnol ac allanol | Ail-baentio stribedi/llinellau sydd wedi colli eu lliw | Gwella gweledēdd grisiau | Yn flynyddol | |
| Gwella diogelwch y llwybr sy'n arwain at ystafell ddosbarth dros dro 'Awstralia' | Ail wneud y ffend a cynnal a chadw y llwybr | Llwybr mwy gweladwy | Haf 2021 | |
| Trefnu ystafelloedd dosbarth yn y modd mwyaf addas ar gyfer disgyblion a chanddynt anableddau. | Pennaeth i ystyried cynllun/lle storio ystafelloedd dosbarth a hygyrchedd adnoddau i ddisgyblion a chanddynt anawsterau iaith a lleferydd | Trefnu'r ystafell ddosbarth yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion disgyblion | Yn ôl y galw | |

| Cynllun Hygyrchedd – Tymor Canolig – Dyluniad yr Ysgol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Targedau** | **Strategaethau** | **Deilliant** | **Amserlen** | **Nodau a gyflawnwyd** |
| Cynnwys Parthau chwarae (Parth Symud a’r Parth Tawel) i annog disgyblion i gynnwys ei gilydd yn eu chaware ac i adeiladu perthynas gyda amreliad o’u cyfoedion. | Darparu gemau ac ardaloedd i chwarae mewn ffydd gwahanol – cynnwys astro turf fel man i ddisgyblion eistedd yn dawel –defnydio rhannau rhydd yn y parth symud ac offer chwarae. | Bydd plant yn chwarae mewn dulliau amrywiol ac yn ôl anghenion unigolion (megis plant awtistig) | 2022-26 | |
| Trefnu ystafelloedd dosbarth yn y modd mwyaf addas i ddiwallu anghenion pob disgybl y gall problemau hygyrchedd effeithio arno, gan gynnwys disgyblion yn y dyfodol | Cynyddir ymwybyddiaeth staff gan Ymgynghorydd ADY yr AALl o ran diwallu anghenion disgyblion a chanddynt anableddau amrywiol<br><br>Bydd staff yn rhoi cyngor ar waith er mwyn diwallu anghenion pob disgybl<br><br>Bydd staff yn rhoi cyngor ar waith er mwyn diwallu anghenion disgyblion a chanddynt anghenion hygyrchedd a dderbynnir | Cynyddu ymwybyddiaeth staff o effaith trefn yr ystafell ddosbarth ar anableddau disgyblion<br><br>Gwella mynediad pob disgybl i'r ystafell ddosbarth/adnoddau | Yn ol y galw – 2022-26 | |

| **Cynllun Hygyrchedd– Tymor Hir – Dyluniad yr Ysgol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Targedau** | **Strategaethau** | **Deilliant** | **Amserlen** | **Nodau a gyflawnwyd** |
| Adolygu cynyddu hygyrchedd tiroedd yr ysgol ar ôl iddi dywyllu | Gosod goleuadau ychwanegol ar diroedd yr ysgol ac o'u cwmpas | Tiroedd yr ysgol yn hygyrch i bawb yn ystod oriau'r nos | Medi 2022 | |
| Gwella amgylchedd gwaith pawb a chanddynt nam clywedol | Defnyddio teclun digidol i gysylltu gu cymorth clyw disgyblion | Gall disgyblion a chanddynt clyw weithio'n annibynnol ym mhob ardal addysgu | Yn dymhorol | |

| Cynllun Hygyrchedd – Tymor Byr – Cyflwyno'r Cwricwlwm | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Targedau** | **Strategaethau** | **Deilliant** | **Amserlen** | **Nodau a gyflawnwyd** |
| Sicrhau bod gan staff y gallu i addysgu/gefnogi disgyblion anabl | Darparu hyfforddiant i staff sy'n briodol i anghenion y disgyblion yn eu dosbarth<br><br>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o ADY | Bydd staff yn gallu diwallu anghenion y disgyblion yn eu dosbarth yn well<br><br>Bydd disgyblion yn derbyn cefnogaeth sy'n briodol i'w hanghenion | Yn ôl y galw | |
| Bydd staff yn cynnig cyfleoedd i bob disgybl lwyddo | Darparu hyfforddiant arall i staff o ran gwahaniaethu<br><br>Bydd y Pennaeth a'r Uwch-dîm Rheoli yn monitro lefelau gwahaniaethu a'u heffaith (monitro cynllunio/gwersi/canlyniadau asesu) | Bydd gwersi'n caniatáu i ddisgyblion lwyddo<br><br>Bydd pob disgybl yn cyflawni ei botensial | CDY 22-23 | |

| Cynllun Hygyrchedd – Tymor Canolig – Cyflwyno'r Cwricwlwm | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Targedau** | **Strategaethau** | **Deilliant** | **Amserlen** | **Nodau a gyflawnwyd** |
| Cynyddir ymwybyddiaeth staff newydd o hygyrchedd | Cynhwysir crynodeb o'r materion sy'n gysylltiedig â hygyrchedd/darperir cwricwlwm hygyrch i staff newydd | Bydd staff newydd yn gyfarwydd â darparu cwricwlwm sy'n hygyrch i bawb | Parhaol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod gan bob disgybl fynediad cyfartal i addysg o safon | Bydd ffurflenni derbyn yn gofyn am wybodaeth am anableddau<br><br>Bydd staff yn derbyn hyfforddiant ar reoli ymddygiad<br><br>Caiff presenoldeb a phrydlondeb eu monitro a bydd y Pennaeth yn trafod problemau â rhieni<br><br>Gwneir asesiadau risg ac addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau bod pob gweithgaredd ar gael i ddisgyblion anabl, gan gynnwys ymweliadau preswyl<br><br>Bydd trefniadau trosglwyddo yn caniatáu i ddata a gwybodaeth gael eu trosglwyddo'n ddidrafferth | Cynyddir hygyrchedd ar gyfer pob disgybl | Parhaol | |